**Senedd Cymru**
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Economi Gwyrdd**
**GE31**
**Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg**

**Welsh Parliament**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**
**Green Economy**
**GE29**
**Evidence from: Welsh Language Commissioner**

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

07 Mawrth 2024

Annwyl Gyfaill

**Ymgynghoriad: ymchwiliad i'r economi werdd**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Rydyn ni'n credu bod potensial gwirioneddol gan y sector sero net i gyfrannu at ffyniant economaidd ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, a thrwy hynny gyfrannu at gynnal a chefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol a chefnogi strategaeth iaith y Llywodraeth, Cymraeg 2050. Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar yr hyn rydyn ni'n ystyried ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Y berthynas rhwng y strategaeth sero net a pholisïau Llywodraeth Cymru ynghylch cefnogi economi cymunedau Cymraeg eu hiaith
- Y berthynas a'r potensial sy'n bodoli rhwng rhai sectorau sero net penodol a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae sectorau fel amaethyddiaeth, defnydd tir a choedwigaeth, a chynhyrchu trydan a gwres yn cynnig cyfleoedd economaidd amlwg i ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Pwysigrwydd cynllunio addysg a llwybrau hyfforddiant iaith Gymraeg lleol yn y sectorau penodol hyn. O gynllunio'n bwrpasol mae cyfle i ddatblygu sgiliau'r boblogaeth i gynnig swyddi o ansawdd da, i annog pobl ifanc i aros yn eu hardaloedd, ac i ddiwallu anghenion economaidd y dyfodol yn yr ardaloedd hyn.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

- Cyfraniad y sector sgiliau sero net at y strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd ac wrth ddarparu gwasanaethau.
- Ffyrdd o rymuso cymunedau i gymryd mantais o gyfleoedd economaidd yr economi werdd.

**Yr economi werdd, Cymraeg 2050 a chryfhau cymunedau Cymraeg**

Mae cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg yn un o amcanion craidd strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu economi ffyniannus, gynaliadwy er mwyn cynnal a chryfhau'r cymunedau hynny lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yr her yw sicrhau fod gan bobl swyddi o ansawdd da, gyrfaoedd deniadol a chartrefi er mwyn iddynt allu aros, neu ddychwelyd, i'r cymunedau hynny. Mae'r sectorau'r economi werdd, fel economi fydd yn gynyddol allweddol yn y dyfodol, yn hynod arwyddocaol yn y cyd-destun hwn.

Fel rhan o'i strategaeth ar gyfer cefnogi cymunedau Cymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Comisiwn ar Gymunedau Cymraeg, fydd yn gyfrifol am ystyried ffyrdd o gryfhau sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Yn ei bapur safbwynt cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, mae'r Comisiwn yn gwneud y cysylltiad rhwng yr angen i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg, a'r cyfleoedd cyffrous sy'n bodoli yn sgil datblygiadau economaidd sero net. Mae papur safbwynt y Comisiwn yn gweld potensial i economi ardaloedd gorllewinol Cymru ymgryfhau yn sgil *'cyfleodd economaidd trawsnewidiad gwyrdd'*, yn enwedig gan *'ei bod yn meddu ar lawer o adnoddau naturiol perthnasol'*.

Mae gorgyffwrdd amlwg yma rhwng rhai o amcanion creiddiol strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, a'r strategaeth sy'n bodoli ar gyfer cyflawni ymrwymiadau sero net. Dylai ystyried y cysylltiadau hyn ac egluro rôl allweddol y sector sgiliau yng Nghymru yn y cyd-destun hwn fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Rydym hefyd yn awyddus i weld

anghenion sgiliau o fewn cymunedau Cymraeg wedi eu hadlewyrchu o fewn y mapiau ffyrdd ar gyfer sgiliau yn y sector sero net mae'r Llywodraeth yn eu paratoi'n bresennol a thrwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai'r Llywodraeth fuddsoddi mewn datblygu'r economi werdd mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, er budd agenda'r economi werdd a'r Gymraeg. Mae angen gwella'r sail dystiolaeth er mwyn cynllunio'n well ac er mwyn helpu pobl leol i fanteisio ar y swyddi all ddeillio o drawsnewidiad yr economi werdd. Mae canolbwyntio ar integreiddio agendau polisi cysylltiedig (er enghraifft, y Gymraeg, yr economi werdd, ac amaethyddiaeth) yn un ffordd o wneud y mwyaf o fuddsoddiad ac o gael y buddion fwyaf posib yng nghyd-destun cyfyngiadau cyllidebol sylweddol.

**Anghenion sgiliau sectorau'r economi werdd a dyfodol cymunedau Cymraeg**

Mae amryw o'r sectorau sero net yn berthnasol iawn yng nghyd-destun dyfodol cymunedau Cymraeg. Hynny yw, mae llawer o'r ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg hefyd yn ardaloedd lle mae potensial i ddatblygiadau economaidd sero net. Mae hwn felly yn un maes y dylai'r Llywodraeth fod yn ei flaenoriaethu er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd economaidd ac ieithyddol/cymunedol sy'n bodoli drwy sectorau'r economi werdd. Mae hefyd ystyriaethau penodol o ran anghenion sgiliau yn yr ardaloedd hyn, sydd felly yn gofyn i'r Llywodraeth weithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau er enghraifft, darparwyr addysg, y Comisiwn Addysg Drydyddol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

*Amaeth, defnydd tir a choedwigaeth*
Dangosodd y Cyfrifiad Cenedlaethol fod 43% o weithwyr amaethyddol (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) yn siarad Cymraeg, o gymharu â 17.8% o'r boblogaeth yn gyffredinol. Amaethyddiaeth yw'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, a dylai ei chefnogi i ffynnu fod yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn hyfyw yn ein cymunedau gwledig. Mae'r egwyddor hon wedi ei gynnwys ym mhedwerydd amcan rheoli tir yn gynaliadwy Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, sydd yn ei gwneud yn

ofynnol i *"gadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd."*

Bydd gweithio tuag at gyflawni ymrwymiadau sero net yn cael dylanwad sylweddol ar y sector amaeth yng Nghymru, ac felly o reidrwydd ar gymunedau lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru Sgiliau sero net: Mewnwelediadau a thystiolaeth o sectorau allyriadau yng Nghymru *(2020: 6)* yn adrodd bod *'NFU Cymru yn disgrifio ffermio yng Nghymru fel 'cadarnle i'r iaith Gymraeg. Mae angen trin yr iaith yn ofalus felly wrth i strwythur y farchnad lafur newid. Mae prynu tir fferm ar gyfer dal a storio carbon, er enghraifft, yn newid defnydd y tir ac yn ei dro yn peryglu cydbwysedd ieithyddol ardaloedd."* Mae'r adroddiad yn argymell bod y Llywodraeth a chyfranogwyr eraill yn y system addysg a sgiliau yn ystyried yr angen am ddarpariaeth leol o gyrsiau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau bod gweithwyr a defnyddwyr Cymraeg eu hiaith yn cael eu cefnogi drwy gydol y cyfnod pontio. Mae'r asesiad yma yn wir ar gyfer y sector amaeth, yn ogystal â'r sectorau defnydd tir, newid tir a choedwigaeth.

Mae yna felly nifer o ystyriaethau penodol y dylai'r Llywodraeth eu hystyried yng nghyd-destun y sector amaeth, defnydd tir a choedwigaeth. Mae angen cydnabod arwyddocâd newidiadau yn y sectorau hyn i ddyfodol cymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd dyfodol y cymunedau arwyddocaol hyn yn dibynnu ar gefnogi'r sector i addasu a newid, a bydd darparu hyfforddiant a sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan hanfodol o hyn. Mae angen i'r Llywodraeth ystyried sut bydd datblygu ac uwchsgilio'r gweithlu presennol nid yn unig yn cefnogi agenda sero net, ond hefyd amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac amcanion strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth.

*Sector cynhyrchu trydan a gwres*

Roedd ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth am sgiliau yn y sector sero net yn cyfeirio at ranbarthau o'r DU sy'n briodol ar gyfer cynhyrchu pŵer carbon isel, gyda ffocws posib ar

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

feysydd sy'n flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Rydyn ni'n credu bod llawer o'r cymunedau gwledig ac ôl-ddiwydiannol sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Mae strategaeth *Cymraeg 2050* hefyd yn cyfeirio at rai o'r ardaloedd yma fel rhai sydd â phocedi o amddifadedd a thlodi gwledig, a chyflogau cyfartalog sydd ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'n amlwg i ni felly bod angen ystyried ymhellach botensial datblygiadau yn y sector cynhyrchu trydan a gwres yn yr ardaloedd hynny sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, sydd ag adnoddau naturiol perthnasol, ac a fyddai hefyd yn elwa'n sylweddol o fuddsoddiad economaidd-gymdeithasol o'r fath.

**Llwybrau addysg a hyfforddiant iaith Gymraeg lleol**

Fel sydd wedi ei nodi eisoes, er mwyn manteisio ar y potensial sy'n bodoli i gefnogi ffyniant economaidd cymunedau Cymraeg drwy ddatblygiadau sero net, mae'n hanfodol bod llwybrau addysg a hyfforddiant addas ar gael yn lleol, a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, os oes gan ardal y potensial ar gyfer datblygiad ynni gwynt, yna mae angen sicrhau bod yna lwybrau hyfforddi i bobl leol fedru manteisio ar hyn, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, dylai cyrsiau hyfforddi ar gyfer diwydiannau penodol gael eu darparu mor agos  â phosib at yr ardal honno, er mwyn hwyluso pobl i aros a byw yn eu cymunedau.

Er nad oes gennym ddarlun llawn o'r bylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth yng Nghymru, fe wyddom fod nifer sylweddol o fyfyrwyr o Gymru yn mynd i astudio i brifysgolion yn Lloegr. Mae'n debyg bod nifer o resymau dros hyn, ac mae'n bosib bod diffyg darpariaeth ddigonol yn rhan o'r rheswm. Mae cyfraddau'r bobl ifanc sy'n gadael Cymru i fynd i'r brifysgol yn dipyn uwch na'r gwledydd eraill ym Mhrydain. Nid oes tystiolaeth ar gael am niferoedd y myfyrwyr sy'n dychwelyd i Gymru ar ôl graddio, ond mae'n debygol nad yw nifer o'r myfyrwyr yma yn dychwelyd. Rydyn ni'n gweld hyn fel problem o ran diwallu anghenion Cymru, ac mae'n tanseilio bwriad y Llywodraeth o gynllunio ar gyfer anghenion Cymru. Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai chwarae rhan yn yr ymdrech i ddelio â'r

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

ffenomenon yma sy'n ddinistriol iawn, nid yn unig i'r Gymraeg, ond i ffyniant Cymru i'r dyfodol. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio agos â phartneriaid o fewn y sector addysg a hyfforddiant.

Ychydig iawn o wybodaeth sydd gennym am anghenion sgiliau Cymraeg mewn sectorau gwahanol. Gan fod yr economi werdd am fod yn gynyddol bwysig, ac er mwyn gallu cynllunio a gweithredu'n strategol mae angen casglu data dibynadwy er mwyn gosod gwaelodlin o'r darlun cenedlaethol a lleol, ac yna osod targedau ar gyfer gwella. Yn hynny o beth, mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a rhanddeiliaid eraill perthnasol gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn datblygu sail tystiolaeth mwy cadarn am y sgiliau Cymraeg sy'n bodoli o fewn y gwahanol sectorau sero net, yn ogystal â faint o sefydliadau sy'n gweithredu trwy gyfrwng Gymraeg.

Gallai gwella'r sail ddata hefyd fod o gymorth wrth asesu effaith ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr. Yn aml mae cynllunwyr gwlad a thref yn adrodd nad oes sail dystiolaeth ganddyn nhw i fedru gwneud asesiadau llawn a dwfn. Rydyn ni'n meddwl y dylai fod yn bosib creu asesiadau o'r sgiliau sydd ar gael mewn cymunedau, yn ogystal â gallu cymunedau i ddatblygu sgiliau, a bod hynny yn rhan o'r fethodoleg o asesu effaith tebygol datblygiadau ar y Gymraeg. Dylai datblygiadau mawr sy'n creu llawer o swyddi o fewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg fedru dangos pa mor debygol y bydd pobl leol o fedru manteisio ar y swyddi hynny. Mae cyfle, trwy'r mapiau ffyrdd ar gyfer sgiliau yn y sector sero net mae'r Llywodraeth yn eu paratoi ar hyn o bryd, i gynllunio tuag at fedru gwneud hynny yn y dyfodol.

## Cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd ac wrth ddarparu gwasanaethau

Mae Cymraeg 2050 yn sôn am y gweithle fel gofod allweddol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Esbonia bod y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion, gan ei fod yn gyfle i siaradwyr ar bob lefel ddefnyddio ac ymarfer yr iaith. Mae sicrhau bod addysg a hyfforddiant ar gyfer sgiliau sector sero net ar

gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol yn y cyd-destun cyffredinol hwn. Mae hwn yn un her amlwg i Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill.

Mae'r pwyntiau uchod yn arbennig o wir yng nghyd-destun sectorau sy'n ymwneud â'r cyhoedd, ac yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Mae'n bosib bod rhai sefydliadau hefyd dan safonau'r Gymraeg sy'n golygu bod dyletswydd arnynt i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd galw cynyddol felly am weithluoedd sy'n medru gwasanaethu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae dros 120 o sefydliadau cyhoeddus yn gweithredu safonau'r Gymraeg, gan gynnwys cynghorau sir, parciau cenedlaethol, colegau addysg uwch, prifysgolion, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a dros amser bydd mwy o sefydliadau yn dod o dan y safonau. Yng nghyd-destun targed *Cymraeg 2050* i gynyddu'r nifer o siaradwyr i filiwn, rydym yn rhagweld y bydd galw am wasanaethau a gweithlu Cymraeg yn cynyddu o fewn sectorau sero net sydd tu hwnt i'r drefn safonau hefyd. Dylai'r mapiau ffyrdd sector sero net adlewyrchu effaith y galw cynyddol yma am sgiliau Cymraeg o fewn gweithluoedd presennol ac yn y dyfodol.

**Grymuso cymunedau i gymryd mantais o gyfleoedd economaidd yr economi werdd**

Roedd ymgynghoriad diweddar y Llywodraeth ar sgiliau'r sector sero net yn cyfeirio at wneud y mwyaf o berchnogaeth leol, gan gadw manteision economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cytuno bod modelau o berchnogaeth leol dros gynhyrchu egni yn ffordd effeithiol o greu swyddi da mewn ardaloedd Cymraeg. Mae ganddynt hefyd y potensial i gyfrannu at economi'r ardal leol. Rydym yn ymwybodol o sawl menter gymunedol yn y sector cynhyrchu trydan a gwres sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac sy'n cyfrannu at yr economi leol. Yn ein sgyrsiau gyda Egni Cymunedol Cymru er enghraifft, mae Partneriaeth Ynni Ogwen ac Ynni Sir Gar yn ymddangos fel modelau esiampl arfer dda o sut i wneud y mwyaf o berchnogaeth leol a chefnogi'r Gymraeg yn rhagweithiol.

Mae llawer o ardaloedd arfordirol Gorllewin Cymru yn cynnwys cymunedau gyda'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg, a gallai'r boblogaeth honno fanteisio ar

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

ddatblygiadau yn y sector ynni morol. Rydym yn ymwybodol bod Menter Môn, sydd hefyd yn gweithredu yn y Gymraeg ac er budd y Gymraeg a chymunedau Môn, wedi datblygu prosiect ynni llif, Morlais. Dylai'r Llywodraeth fynd ati i ddysgu gan fentrau fel Ynni Ogwen, Ynni Sir Gar a Menter Môn er mwyn deall pa sgiliau oedd yn hanfodol i'w llwyddiant, a pha sgiliau y maen nhw'n rhagweld y byddant eu hangen yn y dyfodol. Mae Ynni Cymunedol Cymru wedi lansio gweithgor ar gydberchnogaeth, gan ddod â datblygwyr masnachol a grwpiau ynni cymunedol ynghyd i rannu gwybodaeth, mynd i'r afael â rhwystrau, a datblygu arferion gorau. Gallai ymgysylltu gyda'r gweithgor hwnnw fod yn ffordd effeithiol o ddysgu am anghenion sgiliau ar lefel leol, ac i feddwl sut y gallai'r Llywodraeth gefnogi cymunedau Cymraeg eraill i ail adrodd llwyddiannau'r grwpiau ynni cymunedol sy'n bodoli ac yn arloesi eisoes.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi yn eich ymgynghoriad, ac rwy'n hapus i fy swyddogion gwrdd â chi i drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

Efa Gruffudd Jones

**Comisiynydd y Gymraeg**

**Comisiynydd y Gymraeg**
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales